

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref, Llanelltud
Nos Fawrth, Hydref 13, 2015 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts ac Elfed ap Gomer. Hefyd Peredur Jenkins a Henry Edwards

1. Ymddiheuriadau: Gethin Williams, Llinos Williams, Carwyn Evans a Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gethin Williams y yn datgan diddordeb ynglŷn ag cais cynllunio NP5/65/320A. Eitem 7.a.i.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 8, 2015

Wedi cywiro sillafiad Llanelltyd a Taicynhaeaf, cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 8, 2015

Eitem 8.ff.iii. Llythyr ateb (17/9/2015) oddi wrth Dŵr Cymru yn rhoi gwybod bydd rhaid talu am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth ac mae'r gost tua £120 y flwyddyn. Maent yn awgrymu datgysylltu'r toiledau rhag risg i ddŵr gollwng ond mi fydd taliad o £35 i ail gysylltu.

Penderfynwyd datgysylltu'r toiledau.

Eitem 10.b. Llythyr ateb oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri eisiau gwybod os mae gan yr aelodau gwybodaeth am berchnogion Halfway House.

Wedi gwneud ymholiadau, rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod mae gan y perchnogion cysylltiad gyda Ty Nant, Llanelltyd.

Eitem 8.g. Llythyr (22/9/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod y cwrs wedi cael ei gohirio oherwydd diffyg cefnogaeth.

Eitem 10.a. Roedd Peredur Jenkins a Geraint Rowlands yn bresennol yn y cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriad oddi wrth Janet Edwards. Bydd cyfarfod nesaf ar ddydd Llun, Ionawr 11, 2016 am 7:00yh yn Neuadd Bentref Brithdir.

Cafwyd adroddiad ar y cyfarfod gan Geraint Rowlands a Peredur Jenkins. At y cyfarfod nesaf roedd y cyfarfod eisiau rhestr o asedau a gweithgareddau cymunedol y Cyngor. Ar ôl ad-drefnu cynghorau sir mae'n bosib bydd ad-drefnu yn cael ei wneud i gynghorau cymuned a thref.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 13, 2015

Eitem 10.ch. Mae'r ffens wedi cael ei drwsio.

5. Materion Ariannol

- a. Derbyniwyd (18/9/2015) siec am £100.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i osod beddfaen ar y diweddar Monica Myfanwy Cheshire.
- b. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2015: £10,526.73.
- c. Bil (7/10/2015) am £480 oddi wrth Mr E.W. Davies am dorri gwair ar ddiwedd mis Medi.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Cwblhawyd ffurflen HSBC i ganslo taliadau misol i Mr G.A. Corps am edrych ar ôl Toiledau Bontddu.

d. Bil (6/10/15) am £1,000.00 oddi wrth Mr A.M. Ashton am waith yn y fynwent o dorri gwair a choed a thacluso tyfiant ar wyneb y wal sy'n haneru'r fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Derbyniwyd (13/10/2015) siec am £85.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i ail osod beddfaen ar y diweddar Eileen Teresa Mary Owen.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Mae Mr A.M. Ashton wedi cwblhau gwaith yn y fynwent o dorri gwair a choed a thacluso tyfiant ar wyneb y wal sy'n haneru'r fynwent.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/320A. Cais rhannol ôl weithredol i adfer sgorbor yn lety gwyliau a gosod uned trin carthion. Ysgubor ger Ty'n Lon, Bontddu.

Penderfynwyd ddim rhoi barn ar y cais oherwydd y gwaith cafwyd ei wneud ar y safle yn y gorffennol. (24/9/2015).

ii. NP5/65/91B. Adeiladu estyniad unllawr. Coedir, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION HYDREF 13, 2015

b. Llythyr (Medi 29, 2015). Mae'r Awdurdod yn gwahodd cynghorau tref a chymuned i gyfarfod ynglŷn â phrosiectau, polisiâu a rhaglenni'r Awdurdod. Bydd y cyfarfod lleol yn Coed y Brenin ar ddydd Mawrth, Tachwedd 17 am 6:00-9:00yh.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (24/9/2015) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru, Caerdydd yn rhoi gwybod Archwilydd Cyffredinol Cymru bydd ein harchwilydd statudol. BDO LLP fydd yr archwilydd penodedig ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac yn gyfrifol am archwilio ein Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2015-2016 ac ymlaen. Mae swyddfa BDO yn Southampton (mae swyddfa hefyd yn Llanelwy).

b. Llythyr (23 Medi, 2015) oddi wrth Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ail strwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd. Bydd y strwythur newydd yn cael ei chyflwyno Hydref 5, 2015. Bydd oriau agor swyddfeydd cofrestru Dolgellau a Phwllheli rhwng 10:00 a 12:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ni fydd gorsafoedd yn Bala, Porthmadog a Thywyn.

c. Llythyr (Medi 2015) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (6/10/2015) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o gyflwyniad Annwen Davies, Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd yn eu cyfarfod ar Fedi 23 yn Bafiliwn Criced, Dolgellau.

Rhodddwyd copi o'r cyflwyniad i'r aelodau.

d. Llythyr (5 Hydref, 2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â biniau halen yn y gymuned. Maent yn rhoi gwybod ni fydd y Cyngor yn llenwi, ailgyflenwi a chynnal a chadw'r biniau ar ôl gaeaf 2015/16. Er mwyn i ni gadw'r biniau mae'r Cyngor yn cynnig inni gymryd drosodd y cyfrifoldeb amdanynt o Ebrill 1, 2016 ymlaen. Yr amcan gyfri o'r gost o lenwi bin halen unigol a chost o'i ailgyflenwi yn ystod y gaeaf ac ar ein cais yw £156.00. Amgáu mae rhestr o finiau halen sydd yn y gymuned (8 bin sydd). Os mae angen biniau ychwanegol, a bydd eu lleoliad yn addas i'r Cyngor, bydd amcangyfrif y gost o ddarparu bin haen newydd, wedi ei osod a'i gyflenwi a halen, yn £281.00.

Mae'r Cyngor eisiau gwybod beth yw ein bwriad o ran y ddarpariaeth i gwrdd ein gofyn.

dd. Llythyr (12/10/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Cyfarfod y Cyngor (Saesneg) yn Theatr y Ddraig, Abermaw ar ddydd Mawrth, Hydref 20 am 6:30yh. Y gost fydd £45 y person.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Erthygl yn 'Newyddion' Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gyfle i ddweud eich barn yn gyfarfodydd Her Gwynedd yn Ysgol y Gader ar Hydref 7 am 6:45yh (Fforwm Cyhoeddus) ac yn Llyfrgell Rydd ar Tachwedd 10 am 11:00yb i 1:00yp (Sesiwn galw heibio). Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhannau arall o'r sir.

Roedd Geraint Rowlands ac Elfed ap Gomer ynghyd a Peredur Jenkins yn bresennol yn cyfarfod Her Gwynedd yn Ysgol y Gader ar Hydref 7 am 6:45yh. Roedd tua 40 yn bresennol. Roedd barn nad oedd y cyfarfod yn llwyddiannus iawn oherwydd ymateb cafwyd gan swyddogion Cyngor Gwynedd.

Derbyniodd yr aelodau gan Peredur Jenkins gopi o ddogfen Cyngor Gwynedd 'Her Gwynedd'. Roedd barn falle bysa'r cyfarfod wedi bod yn well gyda'r ddogfen wedi ei gael cyn y cyfarfod cael ei chynnal.

Derbyniodd yr aelodau copi o adroddiad cwblhawyd gan Mr David Coleman ar lwybrau cyhoeddus Gwynedd.

b. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddiogelu ffordd A496 ger Taicynhaeaf ac mae disgwyl i'r gwaith cael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

c. Penderfynwyd derbyn cynnig Swyddog o Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Cyngor Gwynedd i ddod i'n cyfarfod i egluro cynllun sydd am gael ei wneud yn Bontddu i ddiogelu ffordd A496.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd gwneud ymholiadau a Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd beth yw statws y ffordd o'r groesffordd sydd ar gyfer Minffordd, Llanelltyd i'r Hen Bont Llanelltyd a phwy sydd yn gyfrifol amdani. Mae angen torri gordyfiant ar ochr y ffordd yn enwedig rhwng y gât a'r bont.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyngor Dref Dolgellau mi fysa'n syniad da iddynt gysylltu â Llywodraeth Cymru iddynt gynnwys llwybr droed yn eu cynllun i wella ffordd A470. Mae angen y llwybr ar ochr chwith o'r ffordd A470 o ar gyfer Talrafon, Llanelltyd hyd at y gylchfan newydd i gerddwyr / beicwyr croesi'r ffordd i Bont y Wernddu.
